

# Canllawiau ar gyfer ysgrifennu a chyfieithu Gwybodaeth Hawdd ei Deall yn Gymraeg

Gwneud gwybodaeth Gymraeg yn haws i'w darllen a'i deall i bobl ag anabledd dysgu



## Canllawiau Saesneg Hawdd ei Deall

Am I making myself clear? Mencap's guidelines for accessible writing  
<http://november5th.net/resources/Mencap/Making-Myself-Clear.pdf>

How to make information accessible: a guide to producing easy read documents - *Change*

[www.changepeople.co.uk/freebies-download.php?id=30](http://www.changepeople.co.uk/freebies-download.php?id=30)

Making written information easier to understand for people with learning disabilities - *Department of Health*

[www.dh.gov.uk/prod\\_consum\\_dh/groups/dh\\_digitalassets/@dh/@en/documents/digitalasset/dh\\_121927.pdf](http://www.dh.gov.uk/prod_consum_dh/groups/dh_digitalassets/@dh/@en/documents/digitalasset/dh_121927.pdf)

## Diolchiadau

Ysgrifennwyd y ddogfen hon mewn partneriaeth gan Anabledd Dysgu Cymru a Mencap Cymru. Hoffem ddiolch yn fawr i bawb a roddodd o'u hamser i gyfrannu tuag at y canllawiau hyn ac yn arbennig i Emyr, Dafydd Emrys, Geraint a Lynwen am eu cyfraniad gwerthfawr. Diolch yn fawr hefyd i Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru am ledaenu'r neges ymysg yr aelodau.

### Anabledd Dysgu Cymru

Mae Anabledd Dysgu Cymru yn fudiad aelodaeth sy'n gweithio gyda'i aelodau a'i bartneriaid i greu Cymru sy'n gwerthfawrogi a chynnwys pob plentyn ac oedolyn ag anabledd dysgu.



Ffôn 029 2068 1160 E-bost [enquiries@learningdisabilitywales.org.uk](mailto:enquiries@learningdisabilitywales.org.uk)  
Gwefan [www.learningdisabilitywales.org.uk](http://www.learningdisabilitywales.org.uk)

### Mencap Cymru

Rydyn ni am i bobl ag anabledd dysgu a'u rhieni a'u gofalwyr yng Nghymru deimlo'r un mor werthfawr â phawb arall. Rydwn ni am i bobl wrando arnynt a'u cynnwys. Mae ein prosiectau a'n gwasanaethau yn helpu pobl i leisio eu barn, dod yn fwy annibynnol, a dweud eu barn am ddyfodol eu cymunedau.



Ffôn 0808 808 1111 E-bost [helpline.wales@mencap.org.uk](mailto:helpline.wales@mencap.org.uk)  
Gwefan [www.mencap.org.uk/wales](http://www.mencap.org.uk/wales)

### Cefnogir gan Estyn Llaw a Bwrdd yr Iaith Gymraeg



**Ffotograffau o Photosymbols 4**  
<http://www.photosymbols.com>



# Cynnwys

4	<b>Cyflwyniad i'r rhan ieithyddol</b>
4	Cyfathrebu
4	Cyfathrebu a phobl ag anabledd dysgu
6	<b>Canllawiau</b>
6	Mynegiant ac anawsterau sy'n codi
6	Pa wybodaeth i'w chynnwys
7	Patrwm brawddegol
8	Dewis geiriau
	- <i>Geiriau llafar</i>
	- <i>Geiriau plwyfol</i>
	- <i>Geiriau benthyg</i>
	- <i>Geiriau ffeithiol anodd</i>
11	Lluosog Geiriau
11	Rhagddodiaid ac ôl-ddodiaid – geiriau sy'n edrych yn ddieithr
12	Treigladau
13	Arddodiaid
14	Idiomau a Phriod-ddulliau
14	Atalnodi
16	Tafodiaith
19	<b>Symbolau a lluniau</b>
20	<b>Datblygu iaith a geirfa - datblygu profiad</b>
21	<b>Cyfeiriadau cyflym i'w cadw mewn cof</b>

# Cyflwyniad i'r rhan ieithyddol

## Cyfathrebu

Un o'n priodoleddau mwyaf gwerthfawr ni fel hil ddynol yw ein gallu i ddefnyddio iaith i gyfathrebu â'n gilydd. Mae iaith yn gyfrwng i ni drosglwyddo'r llun a welwn ni o'r byd o'n cwmpas i bobl eraill. Mae'n ein galluogi i edrych yn fanylach ar y llun, ei ddadansoddi a ffurfio barn am yr hyn a welwn. Os yw'r farn honno'n cael effaith digon cref arnom nes gwneud i ni fod ag eisiau ei mynegi, gallwn wedyn roi geiriau gyda'i gilydd i ddisgrifio'r hyn a deimlwn ac a feddyliwn.

Mae'r gallu hwn sydd wedi datblygu ynom fel hil wedi bod mor ddefnyddiol i ni ar hyd yr oesau i ddyfeisio, creu a gwella'r byd o'n cwmpas er budd. Mae'r gwrthwyneb yn wir hefyd, wrth gwrs, pan fydd iaith yn cael ei defnyddio er dinistr!

Ond mae gennym ni ddewis – dewis i edrych ar yr hyn sydd wedi ei greu, ffurfio barn amdano a'i dderbyn neu ei wrthod, ei ddefnyddio neu droi ein cefnau arno. Mae'r dewis hwn yn ein symbylu i feithrin rheolaeth dros ein byd bach ein hunain, i ddatblygu ein hunaniaeth ac ymdrech orau gallwn i greu llwybr rydyn ni'n fodlon ei dramwyo a nod i ymgyrraedd tuag ato – hyn i ni yw'r diben i'n bodolaeth.

## Cyfathrebu a phobl ag anabledd dysgu

Nid yw pobl ag anabledd dysgu, fodd bynnag, yn gallu manteisio i'r un graddau ar y cyfrwng hwn. Fel bodau dynol mae gennym ni i gyd anghenion a chan fod pob unigolyn yn unigryw, mae'r anghenion hynny'n gwahaniaethu o berson i berson. Dim ond yr unigolyn ei hun sy'n medru didoli a dewis beth sy'n addas ar ei gyfer.

Yn aml mae gan bobl ag anabledd dysgu anghenion penodol, felly mae'n hynod o bwysig eu bod yn deall beth sy'n digwydd yn y byd o'u cwmpas er mwyn medru didoli a dewis beth sy'n berthnasol iddynt. I'r rhai hynny ohonynt, felly, sydd â medrau iaith, boed y rheiny'n fedrau gwranddo neu ddarllen, mae'n bwysig bod y wybodaeth sy'n cael ei pharatoi ar eu cyfer yn wybodaeth sy'n hawdd iddynt ei deall. Dim ond trwy hynny y gallant wybod beth yw eu hawliau, gwneud dewisiadau yn annibynnol a mynegi eu barn i eraill er mwyn medru cael eu cynnwys ym mywyd bob dydd y gymuned. O fewn cymunedau Cymru mae'r rhan fwyaf o bobl yn medru y Saesneg a bron na ddisgwylir i bawb fedru deall yr iaith hon. Yn aml, mae gwasanaethau ar gael trwy gyfrwng y Saesneg yn unig, hyd yn oed i Gymry Cymraeg ag anawsterau cyfathrebu.







# Canllawiau

## Mynegiant ac anawsterau sy'n codi

Mae ymchwil wedi dangos bod gwahaniaeth yn ymennydd pobl ag anabledd dysgu yn effeithio ar y ffordd y maent yn derbyn gwybodaeth, yn ei brosesu ac yn ei gyfathrebu i bobl eraill.<sup>1</sup> Eto i gyd, nid problem deallusrwydd yw anabledd dysgu. Er gwaetha'r gwahaniaeth mae ymchwil wedi dangos bod gallu rhyfeddol gan yr ymennydd i newid a bod plant ag anabledd dysgu yn medru prosesu gwybodaeth yn well os yw'r wybodaeth honno wedi'i haddasu i ddiwallu eu hanghenion hwy fel unigolion.

Mae un peth yn sicr, sef bod pobl ag anabledd dysgu yn mynd i ddeall gwybodaeth yn well trwy gyfrwng yr iaith maent yn ei chlywed bob dydd. Mae amrediad eang o anawsterau cyfathrebu gan wahanol bobl ag anabledd dysgu ond i'r rhai hynny sy'n medru prosesu iaith trwy ddarllen neu trwy wrando, mae angen i ni feddwl yn ofalus beth yw'r ffordd orau o ddefnyddio'r iaith gyfrwng i gyflwyno gwybodaeth.

Mae pobl sy'n gweithio ym maes medrau iaith pobl ag anabledd dysgu wedi sylwi bod rhai nodweddion iaith yn peri anhawster. Mae hyn yn amlwg yn effeithio ar eu mynegiant a'u gallu i gyfathrebu. Os nad ydynt yn deall patrwm y frawddeg, er enghraifft, nid yw'n bosibl iddynt brosesu'r wybodaeth. Gan fod gwahanol anawsterau prosesu iaith yn codi o fewn yr amrediad eang o anableddau dysgu sy'n bodoli, mae'n anodd pennu union gyfarwyddiadau ynglŷn â'r ffordd o wneud gwybodaeth yn hawdd i'w deall ar gyfer pobl ag anabledd dysgu. Ni allwn ond gweithio gydag unigolion yn barhaus i ddatblygu bob dydd yr hyn a wyddom gan gadw mewn cof bod gallu arbennig gan yr ymennydd i newid a ffurfio cysylltiadau newydd a chreu celloedd newydd wrth ymateb i sefyllfaoedd dysgu a phrofiad yr unigolyn. Fe allwn gychwyn gyda mynegiant syml a chlir ac osgoi rhai nodweddion sy'n tueddu i beri anhawster i bobl ag anabledd dysgu yn gyffredinol.

## Pa wybodaeth i'w chynnwys

Os bydd gwybodaeth wedi ei darparu ar gyfer y cyhoedd yn gyffredinol, nid trosi'r wybodaeth honno i iaith sy'n haws ei deall sydd ei angen ond, yn hytrach, ddewis y wybodaeth y mae ar bobl ag anabledd dysgu wir angen ei wybod. Golyga hyn y bydd arnoch angen cael gwared â gwybodaeth nad yw'n berthnasol. Crynodeb o'r brif ddogfen yn unig fydd y ddogfen hawdd ei daell wedyn. Weithiau bydd angen ychwanegu gwybodaeth os bydd y wybodaeth sydd ar gael angen eglurhad pellach. Bydd hyn yn digwydd pan fydd ysgrifennwr y ddogfen wreiddiol yn cymryd yn ganiataol bod y darllenydd eisoes yn gyfarwydd â'r geiriau a'r termau a ddefnyddir.

<sup>1</sup> 'Learning Disabilities in Children: Symptoms, Types and Testing' – [http://www.helpguide.org/mental/learning\\_disabilities.htm](http://www.helpguide.org/mental/learning_disabilities.htm)

Bydd yn rhaid i chi hefyd benderfynu ym mha drefn i osod y wybodaeth. Trefn resymegol gyda dilyniant clir sydd orau ar gyfer pobl ag anabledd dysgu. Gall hyn olygu bod trefn y wybodaeth gryn dipyn yn wahanol i'r hyn a geir yn y ddogfen wreiddiol.

Ar ôl penderfynu pa wybodaeth i'w chynnwys, y cam nesaf yw dewis y geiriau a'r cystrawennau mwyaf addas i gyflwyno'r wybodaeth honno. Mae geiriau bob dydd, byr ac amlwg eu hystyr a chystrawen neu batrwm brawddegol syml yn allweddol wrth fynd ati i gyflwyno gwybodaeth y gellir ei deall heb lawer o drafferth. Mae deall heb lawer o drafferth yn help i gadw'r wybodaeth mewn cof er mwyn ei gysylltu â'r cam nesaf a chreu cysyniad ystyrlon y bydd modd ffurfio cyswllt ag ef. Bydd hyn yn rhoi hyder iddynt symud ymlaen a chael blas ar ddealltwriaeth. Trwy'r ddealltwriaeth hon y bydd y grym i gyfathrebu wedyn yn eu dwylo hwy.

## Patrwm brawddegol

Gyda'r geiriau addas, y gamp nesaf yw eu gosod mewn patrwm sydd yn syml ac yn glir. Brawddeg fer, heb is-gymalau yw'r gorau, wedi ei chyflwyno yn y stad weithredol. Trwy ddefnyddio ffurf weithredol y ferf mae hyn yn ei gwneud yn amlwg i'r darllenydd pwy sy'n gyfrifol am beth, er enghraifft:

**Mae Dafydd yn bwyta'r gacen.**

Yma, mae'n gwbl amlwg pwy sy'n gwneud beth. Ond o ddefnyddio ffurf oddefol y ferf, mae'r wybodaeth yn mynd yn fwy cymhleth:

**Bwyteir y gacen gan Dafydd.**

Dylai'r wybodaeth hefyd gael ei hysgrifennu mewn ffordd sy'n gwneud i'r darllenydd deimlo ei fod yn rhan o'r frawddeg: bod y frawddeg wedi ei hysgrifennu'n uniongyrchol ar ei gyfer ef. Mae'n help i wneud yn glir beth yw'r berthynas rhwng pob darn o wybodaeth a'r person sy'n ei darllen. Mae'r wybodaeth wedyn yn berthnasol ac yn cael ei chofleidio gan y darllenydd fel rhan ohono ef ei hun.

Un gair bach defnyddiol yn y cyd-destun hwn yw'r rhagenw ategol 'chi'. Wrth gyfarch y darllenydd daw'n amlwg yn syth bod a wnelo'r wybodaeth â'r darllenydd ei hun. Ac yn ôl llawer o bobl y buom yn ymgynghori â hwy, y ffurf mwy ffurfiol 'chi' yn hytrach na'r 'ti' mwy anffurfiol yw'r dewis mwyaf priodol. Mae hyn yn cyfleu ymdeimlad o barch haeddiannol tuag at y darllenydd. Mae rhagflaenu'r ferf â'r geiryn bach rhagferfol 'fe' yn aml, hefyd, yn fodd i wneud i'r testun lifo'n fwy naturiol.

Mae parch yn air allweddol wrth ymdrin â phobl ag anabledd dysgu. Mae un peth yn glir, sef y dylid eu parchu trwy gadw safon yr iaith i gyflwyno gwybodaeth. Nid yw iaith syml, bob dydd yn gyfystyr â iaith sy'n llawn cystrawennau Saesneg neu briod-ddulliau benthyg wedi eu trosi i'r Gymraeg. Mae iaith o'r fath yn esgor ar amwysedd ac yn niwlog o ran ystyr, mae'n camarwain, yn cymhlethu ac yn gostwng gwerth y wybodaeth.

## Dewis geiriau

Er mwyn gwneud y testun yn rhwydd i'w ddarllen mae'n bwysig dewis geiriau sy'n briodol. Dyma ychydig awgrymiadau a all fod o fudd wrth ddewis geiriau.


### Geiriau llafar

O drafod ymysg pobl sy'n gweithio ym maes anabledd dysgu ac ymysg pobl ag anabledd dysgu eu hunain, yr hyn oedd yn cael ei bwysleisio oedd mai gwybodaeth wedi ei gyflwyno mewn iaith gyfarwydd yw'r mwyaf buddiol ar eu cyfer. Yr orchwyl nesaf felly i gyfieithwyr neu rai sy'n ysgrifennu'r wybodaeth o'r newydd yw ceisio penderfynu pa nodweddion sy'n cael eu hamgynnwys o fewn yr iaith gyfarwydd hon.

Wrth gwrs, mae iaith gyfarwydd yn cynnwys geiriau syml, bob dydd ac mae defnyddio'r rhain mewn brawddegau byr, eglur yn sicr o wneud gwybodaeth yn haws i'w deall.

### Geiriau plwyfol

Y farn gyffredinol yw ei bod yn well osgoi geiriau sy'n blwyfol iawn, hynny yw, os nad yw'r ddogfen wedi ei hysgrifennu yn lleol ar gyfer grŵp o bobl leol. Mae tafodiaith ddieithr yn tueddu i ddrysu pobl ag anabledd dysgu, er bod llawer ohonynt yn derbyn nad yw pawb yn siarad yr un fath trwy Gymru gyfan. Buasai brawddeg fel:



Ma'n bryd i mi throi hi am y ciando, decini.

yn debygol o daflu rhywun o Geredigion a brawddeg fel:

Pwy ôn nhw weti 'ny?<sup>2</sup>

yn edrych braidd yn ddieithr i rywun o Wynedd.

---

<sup>2</sup> 'Cymraeg, Cymrâg, Cymrêg... Cyflwyno'r Tafodieithoedd' – Beth Thomas a Peter Wynn Thomas



Dyma'r math o eiriau y buasai'n fuddiol i'w hosgoi ar gyfer cynulleidfa sydd y tu allan i'w dwy filltir sgwâr:

<b>dishmoli</b>	<b>acha</b>	<b>wherthin</b>
<b>syflyd</b>	<b>biti</b>	<b>ercyd</b>
<b>sbïo</b>	<b>hafflau</b>	<b>decini</b>
<b>styrio</b>	<b>andwyo</b>	

Bydd y wybodaeth yn haws i'w deall trwy gyfrwng geiriau syml sy'n adnabyddus i bawb yng Nghymru. Ymdrinnir ymhellach â hyn dan y pennawd Tafodiaith (tudalen 16).

## Geiriau benthg

Mae geiriau benthg yn frith yn ein hiaith bob dydd, felly mae'n debyg bod llawer o'r geiriau hyn yn fwy cyfarwydd i bobl ag anabledd dysgu na rhai geiriau Cymraeg sy'n gyfarwydd i Gymry Cymraeg yn gyffredinol ond sy'n cael eu defnyddio ar lafar gan leiafrif y boblogaeth Gymraeg. Gall geiriau fel 'atal' neu 'cludo' beri penbleth weithiau ac efallai y buasai geiriau fel 'stopio' neu 'cario' yn haws i'w deall. Fodd bynnag, efallai bod modd defnyddio gair Cymraeg arall sy'n fwy cyffredin ambell dro neu weld a oes ffordd arall o eirio'r frawddeg. Efallai byddai 'rhwystro' yn fwy derbynol yn lle 'atal' neu 'mynd â' rhywbeth yn lle 'cludo'.

Yn lle:

Roedd y tywydd yn atal y cwch rhag cludo'r plant i'r ynys.

gellid dweud:

Roedd y tywydd yn rhwystro'r cwch rhag mynd â'r plant i'r ynys.

Un peth y dylid ei ystyried gyda geiriau benthg yw bod ffurfiau treigledig ohonynt yn aml yn peri trafferth i bobl ag anabledd dysgu. Gan fod llawer ohonynt yn dysgu darllen trwy adnabod geiriau, mae geiriau benthg treigledig yn edrych braidd yn od ac anghyfarwydd, er enghraifft:

<b>tiwb</b>	<b>&gt;</b>	<b>diwb</b>	<b>canslo</b>	<b>&gt;</b>	<b>ganslo</b>
<b>tiwn</b>	<b>&gt;</b>	<b>diwn</b>	<b>ciwb</b>	<b>&gt;</b>	<b>giwb</b>

Y neges felly yw defnyddio geiriau benthyg os yw'r gair Cymraeg yn rhy anghyfarwydd, ond os oes modd eu hosgoi a dewis geiriau eraill i gyflwyno'r wybodaeth, gorau oll.

## Geiriau ffeithiol anodd

Yn ôl barn rhai arbenigwyr ym maes anabledd dysgu mae'n bwysig cadw cywirdeb ffeithiol o fewn y wybodaeth. Mae ffeithiau manwl yn hybu dealltwriaeth, a chan nad diffyg dealltwriaeth yw'r broblem i bobl ag anabledd dysgu ond, yn hytrach, deall y wybodaeth fel ag y mae, mae cyflwyno ffeithiau pwysig mewn ffordd hawdd yn mynd i roi darlun cyflawn iddynt, fydd yn ei dro yn eu helpu i lenwi'r bylchau yn eu hamgyffrediad ac yn gwella eu dirnadaeth o'r hyn sydd neu fydd yn digwydd iddynt neu sydd arnynt angen ei wneud. Y gamp wedyn, wrth gwrs, yw cyflwyno'r manylion mewn ffordd syml.

Wrth drosi dogfennau yn rhai hawdd eu deall, yn gyffredinol, mae mwy o ryddid i ganolbwyntio ar rai darnau o wybodaeth, gan ymhelaethu arnynt mewn ffordd syml er mwyn cael y neges drosodd. Os bydd y ddogfen hawdd ei deall Saesneg ag angen ei chyfieithu i'r Gymraeg, mae rhyddid gan y cyfieithydd wedyn i aralleirio'r wybodaeth ryw gymaint er mwyn defnyddio'r geiriau hawsaf, h.y. bod rhyw gymaint o drosi'r neges yn digwydd o fewn y cyfieithu er mwyn cyfathrebu'r neges yn y ffordd symlaf. Y gamp yw gwneud hynny heb gollu'r ystyr.



Efallai bod rhai geiriau ffeithiol technegol yn bwysig i'w cadw ond yn amhosibl eu cyfieithu yn syml i'r Gymraeg. Mae angen ar i'r geiriau hyn wedyn gael eu hesbonio. Efallai bod esboniad cyfatebol yn y ddogfen Saesneg hefyd ond efallai nad oes. Os nad oes, mae'n bosib bod y gair yn haws i'w ddeall yn y Saesneg ac mae'n gwbl gymeradwy i roi esboniad i'r gair Cymraeg wrth gyfieithu er mwyn sicrhau eglurdeb y testun Cymraeg. Fel arfer, dylai'r esboniad hwn ddilyn y gair anodd yn syth, e.e. mewn brawddeg fel:

These services are sometimes called Replacement Care

gan fod y term Cymraeg **Gofal Amgen** o bosibl yn fwy anodd i'w ddeall na'r Saesneg **Replacement Care**, am fod y term Saesneg yn cael ei

ddefnyddio'n fwy aml, peth da yw cael yr esboniad o'r term Cymraeg yn syth ar ei ôl:

Weithiau mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu galw'n  
**Gofal Amgen.**

Mae **Gofal Amgen** yn meddwl bod rhywun gwahanol yn edrych ar eich ôl am ychydig..

## Lluosog Geiriau

Wrth ddysgu darllen mae pobl ag anabledd dysgu neu bobl ag anghenion arbennig yn gwneud gwaith ar luosog geiriau a chyda ffurfiau geiriau syml bob dydd nid ydynt yn cael llawer o drafferth gan eu bod yn arfer clywed lluosog geiriau yn cael eu dweud. Mewn rhai achosion, mae'n debyg eu bod yn fwy cyfarwydd â'r gair lluosog na'r unigol gyda geiriau fel morgrug, gwenyn, moron. Gyda geiriau lluosog sy'n edrych ychydig yn fwy cymhleth, e.e. geiriau ble mae'r elfennau wedi newid o fewn y gair gan wneud iddo edrych braidd yn ddieithr, efallai bod modd dod o hyd i ffordd o'i chwmpas trwy newid y patrwm brawddegol ychydig er mwyn i'r gair ymddangos yn ei ffurf unigol, e.e.

Bydd y **swyddfeydd** i gyd ar gau o 5 o'r gloch ymlaen.

Bydd **pob swyddfa** ar gau o 5 o'r gloch ymlaen.

## Rhagddodiaid ac ôl-ddodiaid - geiriau sy'n edrych yn ddieithr

Gall rhai geiriau sy'n cynnwys rhagddodiaid neu ôl-ddodiaid achosi rhyw gymaint o benbleth i rai. Gall gweld ffurf gysefin y gair o fewn y gair sy'n cynnwys dodiad beri ychydig o benbleth weithiau. Gyda'r gair 'arnofio' er enghraifft, mae'r darlennydd, yn aml, yn adnabod y gair 'nofio' ond gyda'r 'ar' wedi ei ddodi o'i flaen, gall beri peth dryswch. Eto'i gyd, os yw'n cael ei ddefnyddio mewn perthynas â dysgu nofio, er enghraifft, mae'n bur debyg y bydd hwn yn air y bydd y darlennydd yn ei ddysgu ac yn ei gofio o hynny ymlaen.

Efallai bod rhai geiriau sy'n cynnwys dodiaid yn ddigon cyffredin i'w hadnabod, geiriau fel 'echdoe' a 'tramor'. Ond beth am 'rhyngweithio',



'rhyngwladol' a 'tanddaearol'. Os bydd rhaid defnyddio geiriau o'r fath, efallai y buasai o gymorth i'r cyfieithydd neu'r ysgrifennydd anfon nodyn at y bobl sy'n cefnogi'r bobl ag anabledd dysgu i ddweud eu bod wedi eu cynnwys. Efallai wedyn y bydd angen cymorth gyda'r rhain ac egluro eu hystyr ar lafar ac, efallai, egluro mewn ffordd syml y rheswm pam mae'r llythrennau wedi eu hychwanegu. Mae rhai pobl ag anabledd dysgu yn dyheu am gael dysgu a deall mwy.



Yn yr un modd gall rhai ansoddeiriau achosi'r un broblem. Efallai bod rhai sy'n ddigon cyffredin yn ddigon hawdd eu hadnabod, fel 'swnllyd' ac 'agored' ond tybed a yw'r canlynol, er yr un mor gyffredin, yr un mor hawdd eu hadnabod:

**blodeuog, ysgrifenedig, diflanedig, crynedig,  
gweledig, oeraidd, Cymreigaidd, lliwgar**

Efallai mai'r llinyn mesur i'ch helpu i benderfynu a ddylech ddefnyddio gair ai peidio yw gofyn i chi eich hun: 'Pa mor aml mae'r gair yn cael ei glywed ar lafar?'

## Treigladau

Ymysg y cyfranogwyr yn y cyfarfodydd ymgynghori roedd gwahaniaeth barn ynglŷn â threiglo geiriau. Roedd rhai yn credu y byddai treigladau yn peri anhawster ond eraill yn teimlo mai eu cadw oedd orau gan mai dyna roeddynt yn ei glywed gan amlaf yn yr iaith lafar. Ym myd addysg, fodd bynnag, doedd dim lle i gredu bod treigladau yn broblem ac ategir hyn gan bobl ag anabledd dysgu eu hunain. Yn aml, o weld y gair treigledig, maent yn darllen y gair cysefin ac nid yw'n unrhyw rwystr i ddealltwriaeth. Er nad yw hyn bob amser yn wir gyda geiriau benthyg, fel y sonnir ynghynt yn y ddogfen.

Mae hyn hefyd yn dod â ni yn ôl at gadw'r Gymraeg yn safonol – does dim rhaid i gystrawen safonol swnio'n annaturiol. A dweud y gwir, mae'n llifo'n llawer esmwythach pan fydd y nodweddion bach sydd yn gynhenid Gymreig yn dwt yn eu lle. Eu hiaith hwy yw hon fel pob Cymro arall ac mae gan bobl ag anabledd dysgu yr hawl i'w darllen ar ei gorau, oherwydd ar ei gorau y mae pob iaith yn cyfleu ystyr mor agos at yr hyn y bwriedir

i'r ystyr hwnnw fod.

Fel gyda manylion ffeithiol, mae manylion bach ieithyddol yn ychwanegu at yr ystyr. Mae'r iaith ei hun angen cadw'r perlysiâu bach sy'n amlygu ei rhinweddau ac yn bur debyg o gyfoethogi yn hytrach na chymhlethu. I'r rhai hynny sydd â medrau darllen, yr hyder i ofyn sydd ei angen os bydd ambell lythyren yn peri anhawster, nid derbyn ei fod yn rhywbeth sydd y tu hwnt i'w dirnadaeth. Cyn belled ag y bydd yr ateb yn syml ac yn glir, byddant wedi dysgu rhywbeth newydd fydd yn ychwanegu at eu blas ar iaith.

## Arddodiaid

Gan fod swyddogaeth benodol i arddodiaid mewn perthynas â'r ferf gyda berfau arddodiadol y Gymraeg, mae'n bwysig defnyddio'r arddodiad sy'n berthnasol yn y cyd-destun sy mewn golwg er mwyn cadw'r ystyr yn glir, er enghraifft:

talu rhywbeth **i** rywun

ond

talu **am** rhywbeth

ysgrifennu **at** rywun

sôn **wrth** rywun

gwrando **ar** rywun neu rhywbeth

siarad **â** rhywun

Os nad ydych yn sicr pa arddodiad i'w ddefnyddio mewn ambell gyd-destun, gwelir rhestrau ohonynt yng ***Ngramadeg y Gymraeg***, Peter Wyn Thomas ar dudalen 583 – Atodiad 6.I, Estyn berfau, enwau ac ansoddeiriau; dan 'Arddull Ysgrifennu', ***Ysgrifennu Clir*** (Adran Cymraeg Clir Canolfan Bedwyr) ar dud. 23 a cheir cyfeiriad atynt hefyd o fewn cloriau ***Geiriadur yr Academi*** dan y gair Saesneg cyfatebol.

Peth buddiol hefyd yw cadw'r hirnod neu'r to bach ar yr arddodiad 'â'. Wrth gadw'r hirnod mae hyn yn dangos y gwahaniaeth rhyngddo â'r cysylltair 'a' neu'r rhagenw perthynol. Fel arfer, nid yw'r hirnod yn peri trafferth i bobl ag anabledd dysgu.

## Idiomau a Phriod-ddulliau

Rhai pethau y dylid eu **hosgoi**, fodd bynnag, mewn gwybodaeth hawdd ei deall Gymraeg i bobl ag anabledd dysgu yw'r **idiomau** neu'r **priod-ddulliau** sy'n britho'r iaith Gymraeg. Mae llawer o bobl ag anabledd dysgu, yn enwedig rhai gydag awtistiaeth neu aspergers, yn cymryd iaith yn llythrennol a buasai gweld ymadrodd fel 'dros ben llestri' neu 'talw trwy ei drwyn' mewn dogfen yn peri dryswch iddynt. Nid nad ydy o'n beth drwg, mae'n debyg, i gyflwyno idiomau o'r fath, yn enwedig pan fydd y person ag anabledd dysgu yn gweithredu ar lefel uchel, fel yn achos aspergers. Gall y bobl hyn ddysgu i beidio â chymryd pethau'n llawn mor llythrennol a cheir hanes ambell un yn troi'r anhawster deall a'i ben i waered gan ddefnyddio idiomau o'r fath i dynnu coes. Ond gyda gwybodaeth ble mae'n bwysig iawn bod pobl ag anabledd dysgu yn deall, mae'n debyg ei bod yn well cadw'r idiomau ar gyfer sefyllfaoedd eraill.

## Atalnodi

Er mwyn lleihau nifer yr elfennau a allasai beri penbleth, mae'n well cadw atalnodi mor syml ag sy'n bosibl:

1. Mae'r **atalnod llawn**, wrth gwrs, o fudd pan fydd ei angen i ddangos ble mae un darn o wybodaeth yn gorffen a'r llall yn dechrau.
2. Nid oes amheuaeth bod angen y **gofynnod**.
3. Os yw'n bosibl, mae'n well defnyddio brawddegau syml, heb is-gymalau, ac felly ni fydd raid defnyddio rhyw lawer ar y **coma**. Er hynny, mae'n well ei roi i mewn os bydd ei angen i amlygu ystyr y frawddeg.
4. Mae **pwytiau bwled** yn ddefnyddiol os bydd angen enghreifftiau neu restr o wybodaeth sy'n ymhelaethu ar ddarn o wybodaeth a godwyd, er enghraifft:

Gallwch gael cyfle i wneud llawer o wahanol weithgareddau yn y digwyddiad hwn. Gallwch

- chwarae pêl-droed
- chwarae pêl-rwyd
- gwneud athletau
- chwarae badminton.



Mae defnyddio pwyntiau bwled fel hyn yn llawer gwell na rhestru'r geiriau gan roi coma neu hanner colon rhwng pob enghraifft.

5. Fel arfer, nid yw pobl ag anabledd dysgu yn cael trafferth gyda'r **collnod** mewn geiriau fel 'sy'n' a 'mae'n' ac mae'r **collnod** hefyd yn rhoi naws mwy llafar i'r testun gan adlewyrchu'r hyn sy'n cael ei glywed ar lafar. Wedi dweud hynny, mae rhai pobl yn tueddu i ddefnyddio 'mae eich' yn hytrach na 'mae'ch' gan deimlo ei fod yn fwy eglur heb y collnod yn y cyswllt hwn.
6. Mae'n well osgoi **cromfachau** hefyd os yn bosibl. Os bydd angen egluro gair neu gymal, mae'n well ysgrifennu brawddeg eglurhaol wrth ei ochr neu oddi tano, er enghraifft:

Rydyn ni am wneud yn siwr bod **cydraddoldeb** ym mhob rhan o'n gwaith.

Mae **cydraddoldeb** yn meddwl bod pawb yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal.

yn hytrach na:

Rydyn ni am wneud yn siwr bod **cydraddoldeb** ym mhob rhan o'n gwaith (mae **cydraddoldeb** yn meddwl bod pawb yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal).

Yn yr ail enghraifft mae'n debygol bod gormod o destun i'w dreulio gyda'r gair a'r cromfachau anghyfarwydd. Mae ei rannu'n ddwy frawddeg gyda dau fwllch rhwng bob un yn haws i ymdopi ag ef.

7. Mae ambell **wahannod** yma ac acw yn iawn i'w cynnwys os yw'n helpu i wneud y testun yn gliriach, er enghraifft:

Efallai na fyddwch chi'n cael cymryd rhan oherwydd eich

Oedran - am eich bod yn rhy ifanc neu'n rhy hen

Crefydd - oherwydd beth rydych chi'n ei gredu neu ddim yn ei gredu

8. Dylid osgoi'r **cysylltnod** mewn manau hefyd, wrth nodi hyd cyfarfod, er enghraifft. Gwell yw rhoi:



Bydd y cyfarfod yn para o 11 o'r gloch y bore



tan 3 o'r gloch y prynhawn.

gyda dau lun wyneb cloc yn dangos yr amseroedd penodol wrth ei ochr, yn hytrach na:



Bydd y cyfarfod yn para o 11yb-3yp /  
Bydd y cyfarfod yn para o 11am-3pm.

9. Wrth gwrs, ni chynhwysir y **cysylltnodau sy'n rhan o'r orgraff Gymraeg** yn yr argymhellion hyn. Mae i'r rhain swyddogaeth bwysig o fewn yr iaith.

Os oes angen dyfynnu rhywun o fewn y testun, mae **dyfynodau sengl** yn ddigonol.

Felly, fel y gwelwch, nid yw pethau'n ddu a gwyn. Y canllaw gorau i gadw ato yw: osgoi atalnodi ble mae'n bosibl a'i ddefnyddio dim ond os oes raid. Yr hyn sydd ei angen yw pwysu a mesur gyda phob darn o destun gan ystyried y gynulleidfa.

## Tafodiaith

Y mae pobl ag anabledd dysgu, fel pawb arall, yn debygol o fabwysiadu'r iaith lafar – yr eirfa, y gystrawen a'r ymadroddion sy'n cael eu harfer o fewn eu milltir sgwâr. Yr iaith sy'n cael ei hyngan ar yr aelwyd yw'r iaith y byddant yn ei deall orau. Mae llawer mwy i eiriau ac ymadroddion na'u hystyr arwynebol. Mae'r geiriau mae plant yn ymgyswrtu â hwy yn datblygu ystyr bersonol ac emosiynol sy'n unigryw iddynt hwy. Mae'r amgylchiadau a'r profiadau maent yn eu cael wrth ddod i adnabod gair yn wahanol ym mhob achos. Mae profiad plentyn sydd â chath anwes gartref wrth iddo ddod i adnabod y gair 'cath' yn mynd i fod tipyn yn wahanol i brofiad



plentyn nad oes cath anwes ganddo. Mae'r gair tafodieithol am rywbeth hefyd yn mynd i olygu mwy iddo. Er enghraifft, mae'r gair 'tishen' yn mynd i ddod a mwy o ddŵr i ddannedd person o'r de na'r gair mwy safonol 'teisen'.

Er hynny, wrth dyfu'n hŷn a lledu eu gorwelion mae pobl ag anabledd dysgu yn dod i dderbyn nad yw pawb yn siarad yr un fath trwy Gymru gyfan a bod pobl mewn ardaloedd eraill yn defnyddio geiriau sydd un ai'n amrywiadau neu'n eiriau cwbl wahanol i'r rhai maent yn gyfarwydd â hwy.

Wrth ddysgu darllen Cymraeg yn yr ysgol mae plant ag anghenion arbennig yn defnyddio iaith sy'n gyffredin ar draws Cymru. Mae Prawf Darllen Safonedig Cymru Gyfan yn caniatáu amrywiaeth o ffurfiau sy'n rhan o'r tafodieithoedd rhanbarthol. Er hynny, nid yw'r deunydd yn y prawf yn cynnwys geirfa neu idiomau sy'n debygol o wahaniaethu yn erbyn rhai plant am eu bod yn fwy cyfarwydd mewn rhai ardaloedd. Er mwyn dewis y geiriau sy'n debygol o fod yn gyfarwydd i bawb, defnyddir dwy strategaeth.<sup>3</sup> Pan fydd dau air gyda'r un ystyr yn cael eu defnyddio mewn gwahanol rannau o Gymru, e.e. tost/sâl, crac/blin, brwnt/budr, y gair sy'n fwyaf derbyniol yn y cywair llenyddol fydd yn cael ei ddewis. Os nad oes yr un o'r geiriau yn fwy llenyddol na'r llall, y ffordd o ddatrys hyn yw trwy geisio osgoi y geiriau yn gyfan gwbl ac aralleirio'r hyn sy'n cael ei ddweud.

Mae'r iaith lafar safonol a ddefnyddir ar gyfer dibenion dysgu a darlledu, er yn fwy llafar ei naws, yn cadw at gystrawen safonol. At ei gilydd, mae'n ddiogelach defnyddio'r ffurf hon gyda gwybodaeth ysgrifenedig ar gyfer pobl ag anabledd dysgu gan ei bod yn osgoi'r ffurfiau bach direidus hynny sy'n aml yn llithro i mewn i'r iaith lafar.



3 'Datblygu Profion Darllen Safonedig Ar-lein yn y Gymraeg', Robot Powell – <http://www.aber.ac.uk/mercator/images/powell.pdf>



Fodd bynnag, does dim i guro tafodiaith wrth gyfathrebu ar lafar â phobl ag anabledd dysgu. Mae'n bur debyg bod tafodieithoedd ledled Cymru wedi eu meithrin i ddiwallu anghenion cymdeithas glos o fewn ffiniau ardal ble tueddai'r trigolion ymwneud â'i gilydd yn feunyddiol. O ystyried y cyni cymdeithasol sy'n britho ein hanes, does dim rhyfedd bod cymaint o ymadroddion sy'n cyfleu ymdeimlad o ofal, agosatrwydd, cydymdeimlad a chyfeillgarwch yn yr iaith Gymraeg. Os dyma'r iaith sy'n gyfarwydd i bobl ag anabledd dysgu, dyma'r iaith sy'n mynd i wneud iddynt deimlo'n ddiogel a chysurus, a digon hyderus o fewn eu milltir sgwâr i fentro camu ymhellach.

O gadw hyn mewn golwg ar gyfer sgwrsio'n gyffredinol, efallai y dylem fod yn fwy pwylllog wrth gyfathrebu gwybodaeth ble mae'n bwysig bod yr ystyr yn glir. Mae tuedd ynom ni fodau dynol i siarad yn flêr, gan lithro'n gyflym dros eiriau a'u torri yn eu chwarter yn aml iawn. Yn aml hefyd, rydym yn gadael geiriau allan am ein bod yn cymryd yn ganiataol bod y gwrandäwr mor gyfarwydd â'r ymadrodd, bydd y gair coll yn dod i'r meddwl heb iddo gael ei yngan. Pan fydd mynegiant clir yn hanfodol, efallai na ddylem gymryd hyn yn ganiataol gyda phobl ag anabledd dysgu, ond yn hytrach sicrhau ein bod yn defnyddio cystrawen glir i gael y neges drosodd yn y ffordd orau bosibl.

Efallai gall hon ddod yn iaith gyfarwydd iddynt, yn iaith ble mae'n bwysig canolbwyntio i ddeall ystyr, yr iaith a efelychir yn yr iaith ysgrifenedig ac o'i meistrolï'n well bydd eu grym i gyfathrebu yn grymuso.

# Symbolau a lluniau

Yn ogystal â gwybodaeth ysgrifenedig, mae cynnwys lluniau a symbolau i egluro'r testun ymhellach yn bwysig i bobl ag anabledd dysgu. Wrth gyfieithu dogfen felly, rhaid peidio ag anghofio cyfieithu unrhyw destun sy'n ymddangos ar y symbolau a gwneud nodyn ohonynt i'w anfon at y cleient wrth ddychwelyd y gwaith. Fe ddylai'r cleient fedru eu newid neu gael rhywun i wneud hynny ar ei ran. Mae cynlluniau ar y gweill i baratoi symbolau yn Gymraeg ond nes bydd y rheiny ar gael bydd yn rhaid eu newid â llaw.



Os bydd cyfeiriad yn y ddogfen Saesneg Hawdd ei Deall at gyhoeddiad neu lyfryn hawdd ei ddeall i bobl ag anabledd dysgu, gyda llun o'r ddogfen yn cyd-fynd â'r testun, chwiliwch a oes fersiwn Gymraeg wedi ei chyhoeddi hefyd. Bydd modd i'r cleient wedyn ddefnyddio llun o'r fersiwn Gymraeg gogyfer â'r testun Cymraeg.

# Datblygu iaith a geirfa - datblygu profiad

Y mae pobl ag anabledd dysgu yn aml yn y tywyllwch ynglŷn â materion sy'n berthnasol iddynt hwy fel unigolion. Mae hyn yn eu rhoi dan anfantais enbyd gan eu gwneud yn ddiymadferth ac yn hawdd iawn eu niweidio yn y byd sydd ohoni. Os nad ydynt yn deall y wybodaeth sy'n egluro'r hyn fydd yn digwydd, nid oes modd iddynt fynegi'r anawsterau sy'n eu hwynebu ond o'i deall, buasai hyn yn ei dro yn eu galluogi i reoli eu bywydau er gwell. Trwy gyflwyno



gwybodaeth mewn iaith glir, gan geisio sicrhau eu bod wedi deall yr hyn sy'n cael ei ddweud, ac egluro pan fydd angen, ac weithiau, gyflwyno geiriau newydd i ehangu eu gorwelion ym mha fodd bynnag sydd yn gweithio iddynt hwy, bydd eu dealltwriaeth a'u profiadau a'u rheolaeth yn datblygu, gan godi safon eu bywydau bob dydd. Buddiol iawn, os yn bosibl, fuasai i'r ysgrifenydd a'r cyfieithwyr gael cysylltiad agosach â'u cynulleidfa yn enwedig os yw'r gynulleidfa honno yn lleol. Buasai hynny'n sicr o wneud y gwaith yn haws yn y pen draw.

Mae yr un mor bwysig hefyd, i ddod o hyd i ffordd o gyfathrebu gwybodaeth i'r rhai hynny nad oes ganddynt fedrau gwranddo a darllen. Mae iaith arwyddion, fideos, meddalwedd electronig ac amrywiaeth o gyfryngau eraill sy'n diwallu anghenion gwahanol fathau o anableddau dysgu ar gael. Wrth gwrs, mae'r rhain yn feysydd gwahanol i'r hyn sy'n cael ei drafod yma ond yr hyn y dylem ei gofio yw'r pwysigrwydd o gael cymaint o wybodaeth â phosibl drosodd i bob unigolyn beth bynnag yw'r rhwystrau sy'n eu hwynebu. Fel y dywedodd un rhiant yn daer, pa mor enbyd bynnag yw'r anabledd, '*cyfathrebu, cyfathrebu, cyfathrebu!*' sydd ei angen - llwyddo i wneud hynny yw ein nod!





# Cyfeiriadau cyflym i'w cadw mewn cof

1. Defnyddio geiriau **syml, bob dydd**
2. **Patrwm brawddegol** syml yn y **stad weithredol**
3. Gwneud y wybodaeth yn **berthnasol i'r darlennydd** gan **gyfarch y darlennydd**
4. **Cadw safon yr iaith** er mwyn sicrhau bod yr ystyr yn glir
5. Dewis geiriau addas - **llafar ond nid plwyfol**
6. Os oes **modd osgoi geiriau benthyg**, gwneud hynny
7. Cadw **ffeithiau pwysig trwy eu hegluro** mewn ffordd syml
8. **Treigladau – dim problem!**
9. **Cyn lleied o atalnodi** â phosibl
10. Geiriau **Cymraeg ar y symbolau**
11. **Cyfathrebu** yw'r nod!



**Learning Disability Wales**  
**Anabledd Dysgu Cymru**



Llais anabledd dysgu  
The voice of learning disability



Hawlfraint © Anabledd Dysgu Cymru / Mencap Cymru 2012

